# Cofnodion

## Bwrdd Gweithredol CLlLC

**16 Rhagfyr 2022**
**Dros Zoom**

**YN BRESENNOL:**

Swyddog Llywyddu CLlLC, Y Cynghorydd Huw David (Pen-y-bont ar Ogwr)
Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE (Rhondda Cynon Taf)
Y Cynghorydd Bryan Davies (Ceredigion)
Y Cynghorydd Charlie McCoubrey (Conwy)
Y Cynghorydd Darren Price (Sir Gaerfyrddin)
Y Cynghorydd David Simpson (Sir Benfro)
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd)
Y Cynghorydd Geraint Thomas (Merthyr Tudful)
Y Cynghorydd Huw Thomas (Caerdydd)
Y Cynghorydd Ian Roberts (Sir y Fflint)
Y Cynghorydd Jane Mudd (Casnewydd)
Y Cynghorydd Jason McLellan (Sir Ddinbych)
Y Cynghorydd Lis Burnett (Bro Morgannwg)
Y Cynghorydd Llinos Medi (Ynys Môn)
Y Cynghorydd Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cynghorydd Mary Anne Brocklesby (Sir Fynwy)
Y Cynghorydd Rob Stewart (Abertawe)
Y Cynghorydd Stephen Thomas (Blaenau Gwent)
Y Cynghorydd Steve Hunt (Castell-nedd Port Talbot)

Y Cynghorydd Steve Bradwick (yn cynrychioli'r Gwasanaethau Tân)

**Dirprwyo**
Y Cynghorydd Matthew Dorrance (Powys) (dirprwyo dros y Cynghorydd James Gibson-Watt)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Chris Llewelyn, Daniel Hurford, Dilwyn Jones, Jenny Lloyd, Jon Rae, Leah Whitty, Lee Pitt, Nathan Gardner, Nerys Hurford (cyfieithydd ar y pryd), Tim Peppin

## Eitem 1: Croeso ac Ymddiheuriadau

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anthony Hunt (Torfaen), y Cynghorydd James Gibson-Watt (Powys) a'r Cynghorydd Sean Morgan (Caerffili).

## Eitem 2: Cofnodion y Bwrdd Gweithredol 28 Hydref 2022

2. Cafodd y rhain eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

## Eitem 3: Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Arweinydd CLILC

3. Nododd y Cynghorydd Morgan ei fod wedi mynychu cyfarfod am y cynnig i ffoaduriaid o Wcráin. Bydd y swm yn cael ei leihau o 10,000 i tua 5,000 o fis Ionawr a hefyd, nid oes arian i ffoaduriaid o Wcráin ar ôl iddynt fod yma am flwyddyn. Awgrymodd yr Arweinydd y dylai CLILC ysgrifennu ochr yn ochr â COSLA gan y bydd yr angen am gefnogaeth mewn ysgolion yn para yn llawer hirach na 12 mis.

4. **Penderfynwyd:**

   **4.1 Ysgrifennu llythyr ar y cyd â CoSLA at Lywodraeth y DU**

.

## Eitem 4: Setliad Llywodraeth Leol 2023-24 (Diweddariad ar lafar)

5. Cyflwynodd y Cynghorydd Andrew Morgan yr eitem hon yn absenoldeb y Cynghorydd Hunt, gan ddweud bod y canlyniad cystal â'r hyn y gellid ei ddisgwyl mewn gwirionedd. Dywedodd fod angen manylion am y grantiau refeniw cyn gynted â phosibl a dywedodd wrth y cyfarfod fod Gweinidogion yn awyddus iawn i osgoi unrhyw gynnydd digid dwbl yn Nhreth y Cyngor, ond nad ydynt yn disgwyl iddo gael ei rewi ychwaith. Ychwanegodd y Cynghorydd Morgan fod blwyddyn 2 yn benodol yn mynd i fod yn eithriadol o anodd.

6. Dywedodd y Cynghorydd Morgan ei bod yn ymddangos fod lobïo ynghylch addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud gwahaniaeth, gan ychwanegu fod y sgyrsiau hyn yn rhai angenrheidiol a bod angen i ni barhau i roi gwybod yn uniongyrchol i Weinidogion yn hytrach na swyddogion. Cytunodd y Cynghorydd Llinos Medi ei fod yn setliad gwell na'r disgwyl, ond roedd eisiau bod yn glir bod 2023-24 yn debygol o fod yn haws na 2024-25 ac efallai y bydd yn haws gwneud penderfyniadau anodd y flwyddyn ariannol nesaf yma er mwyn gwneud pethau'n haws ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

7. Diolchwyd yn eang i'r Cynghorwyr Hunt a Morgan am eu rôl wrth lobïo Gweinidogion yn effeithiol, ond mynegodd nifer o Arweinwyr bryder am degwch y fformiwla ariannu neu beidio. Mynegwyd y gellid diwygio'r fformiwla i roi mwy o bwyslais ar dlodi, gan dderbyn, fel gydag unrhyw newidiadau i fformiwla, y bydd rhai yn methu allan ynghyd â rhai fydd yn ennill.

8. Roedd y Cynghorydd Morgan yn cefnogi'r cynnig y gallai Is-grŵp Cyllid CLILC ystyried y fformiwla (heb Weinidogion), gan nodi efallai y byddai'n briodol ystyried rhai o'r ysgogwyr yn hytrach nag adolygiad llawn, gyda chytundeb y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd nesaf. Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod angen bod yn ofalus gan y byddai angen comisiynu rhywun efallai i fesur unrhyw adolygiad a gosod goblygiadau, yn cynnwys a oes angen adolygiad, ac a ddylai fod yn un rhannol neu lawn?

9. Dywedodd Jon Rae fod Trysoryddion eisoes wedi dechrau edrych ar y tymor canolig a bod ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda Dadansoddi Cyllid Cymru

ar 2025-26 ac ymlaen. Gan ychwanegu at sylwadau'r Cynghorydd Morgan, dywedodd, pe bai angen adolygiad sylfaenol o'r fformiwla, y byddai angen proses o bedair neu bum mlynedd. Dywedodd fod y Gweinidogion wedi ymrwymo i ddiweddaru data'r cyfrifiad, a ddylai helpu gyda'r data amddifadedd hefyd.

**10. Penderfynwyd:**

**10.1 Bod Grŵp Cyllid CLlLC yn ystyried adolygiad o'r fformiwla, yn cynnwys yr ysgogwyr ynddo.**

## Eitem 5: Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ardrethi Busnes

11. Cyflwynodd y Cynghorydd Rob Stewart y papur gan grynhoi'r prif bwyntiau. Cytunwyd â'r argymhellion drwy gonsensws, er bod y Cynghorydd Medi wedi mynegi pryder am gapasiti Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac Awdurdodau Lleol i ddelio â'r llwyth gwaith ychwanegol, a gofynnodd a ellid ychwanegu hyn at yr ymateb efallai. Cadarnhaodd y Cynghorydd Stewart, os na ellir ei gynnwys yn y llythyr, bydd y pryder yn bendant yn cael ei godi mewn man arall.

**12. Penderfynwyd:**

**12.1 Bod pawb yn cytuno â'r argymhellion yn yr adroddiad.**

## Eitem 6: Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ardoll Dwristiaeth

13. Cyflwynwyd y papur gan y Cynghorydd Rob Stewart a mynegwyd ystod eang o safbwyntiau.

14. Dywedodd y Cynghorydd Siencyn fod costau i dwristiaeth o ran cynnal a chadw isadeiledd, a byddai ardoll dwristiaeth yn bositif i'r diwydiant i wella'r adnoddau i ymwelwyr. Fodd bynnag, dywedodd y Cynghorydd Pritchard nad yw'n cytuno â threth i dwristiaid mewn egwyddor gan ei fod yn teimlo y byddai'n atal llawer o bobl rhag dod i Gymru.

15. Cytunwyd fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r mwyafrif yn cefnogi'r egwyddor, mai grym yw ardoll dwristiaeth ac na fyddai'n rhaid i unrhyw awdurdod lleol ei gyflwyno os na fyddent yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd y Cynghorydd Stewart y byddai'n well ganddo gael cyfle i ymgynghori a'i gyflwyno yn nes ymlaen os oes angen yn dilyn trafodaeth â gweithwyr proffesiynol, ac os bydd yn cael ei gyflwyno, byddwn yn gallu ei gyflwyno yn nes ymlaen os bydd awdurdodau unigol yn dewis gwneud hynny.

16. Dywedodd y Cynghorydd Morgan ei fod yn parchu'r ffaith bod 22 o bobl sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd yma, a dylem adlewyrchu'r ffaith bod barn mwyafrif, a hefyd roi llais i'r lleiafrif.

**17. Penderfynwyd:**

**17.1 Cefnogi hyn, ond dylai'r gwahaniaethau barn gael eu hadlewyrchu'n llawn yn yr ymateb.**

## Eitem 7: Rhaglen Cefnogi Trosglwyddiad ac Adferiad CLILC

18. Cyflwynodd y Cynghorydd Morgan y papur fel llefarydd ar newid yn yr hinsawdd. Roedd y Cynghorydd Pritchard yn cefnogi nodau'r adroddiad ond mynegodd bryderon am y goblygiadau cost posibl. Dywedodd y Cynghorydd Medi ei bod yn cefnogi'r hyn oedd yn y papur, ond bod ganddi bryderon am y goblygiadau o ran caffael mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i fusnesau bach a micro na fyddai'n gwneud cais am waith efallai a/neu a allai ei chael yn anodd bodloni gofynion. Felly, efallai bod angen meddwl mwy am ble mae'r trothwyon wedi eu gosod. Pwysleisiodd y Cynghorydd Medi nad oedd yn anghytuno â'r syniadau, dim ond y manylion ymarferol.

19. Dywedodd Tim Peppin y bydd angen gweithio gyda chyflenwyr lleol a'u cefnogi fel eu bod yn gallu bodloni'r manylion yn y dyfodol, ac felly lleihau'r tebygrwydd y bydd y gwaith yn cael ei ddyfarnu i gyflenwyr y tu allan i'r ardal.

**20. Penderfynwyd:**

**20.1 Codi'r posibilrwydd o gael cefnogaeth Busnes Cymru i gyflenwyr lleol â Llywodraeth Cymru**
**20.2 Cytuno â'r argymhellion yn yr adroddiad.**

## Eitem 8: Y Papur Gwyn Gweinyddu a Diwygio Etholiadol

21. Dywedodd Daniel Hurford fod hwn yn adroddiad technegol, manwl sy'n cau ar 10 Ionawr felly nid oes llawer o amser i fyfyrio arno, oherwydd y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

22. Dywedodd y Cynghorydd Morgan, os bydd Cynghorydd yn cael ei ethol yn Aelod o'r Senedd neu'n Aelod Seneddol, mae ei grŵp lleol yn teimlo'n gryf y dylent roi'r gorau i'w rôl. Ar hyn o bryd, mae cyfyngiad ar Aelodau'r Senedd bod rhaid iddynt roi'r gorau i'w rôl mewn 12 mis, ond eu barn nhw yw y dylech roi'r gorau i'ch rôl fel Cynghorydd yn syth ar ôl cael eich ethol.

23. Pwysleisiodd y Cynghorydd Mudd ei chefnogaeth i daliadau parasiwt, gan ddweud y dylai pobl sy'n colli eu seddi ar ôl gwasanaeth ymroddedig cael eu hamddiffyn yn ariannol.

**24. Penderfynwyd:**

**24.1 Cytuno â'r argymhellion.**

## Eitem 9: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyflogau Gwasanaethau Llywodraeth Leol CYFRINACHOL

25. Cyflwynodd Chris Llewelyn y papur yn absenoldeb y Cynghorydd Hunt ac ni chodwyd unrhyw sylwadau na materion.

## Eitem 10: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyd-gyngor Cymru

26. Cyflwynodd Chris Llewelyn y papur yn absenoldeb y Cynghorydd Hunt gan ddweud fod y Cynghorydd Hunt wedi cytuno i godi ymwybyddiaeth ymhlith arweinwyr am y materion. Cadarnhaodd Chris fod Atodiad 1 yn bapur a gyflwynwyd gan y GMB am eu pryderon am ddarparwyr trydydd parti yn darparu cynlluniau prentisiaeth.

27. Ni chodwyd unrhyw sylwadau na materion a nodwyd y papur yn briodol.

## Eitem 11: Cyllideb CLILC 2023-24

28. Cyflwynodd Chris Llewelyn y papur yn absenoldeb y Cynghorydd Hunt gan ddweud fod y Gyllideb wedi ei thrafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rheoli yr wythnos ddiwethaf. Amlygodd mai un o'r nodweddion yw bod aelodau'n cymryd llawer mwy o ran yng ngwaith CLILC o ddydd i ddydd, er ei bod wedi ymdrechu erioed i fod yn gymdeithas dan arweiniad aelodau.

29. Tynnodd Jon Rae sylw at y ffaith fod CLILC wrthi'n chwilio am opsiynau i sefydliadau eraill ddefnyddio'r lle gwag gan ein bod dan gapasiti. Soniodd hefyd am y contract cyfieithu â Chonwy a'r contract TG â Chaerdydd, a bod angen edrych arnynt erbyn diwedd y flwyddyn.

30. Dywedodd y Cynghorydd Stephen Hunt ei fod fel aelod newydd yn cydnabod y gwaith pwysig mae CLILC yn ei wneud. Fodd bynnag, mae angen tynnu sylw at y ffaith bod cynnydd mewn Diogelwch Cymunedol a lwfansau posibl aelodau, felly er ei fod yn cefnogi'r argymhellion, holodd sut byddai hyn yn edrych ym marn y cyhoedd.

**31. Penderfynwyd:**

**31.1 Cymeradwyo'r adroddiad.**

## Eitem 12: Unrhyw Fater Arall

32. Tynnodd y Cynghorydd Medi sylw at y ffaith fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd wedi cael ei benodi, gan ddweud y dylem ysgrifennu ato a rhoi gwybod iddo am y pwysau gwirioneddol sy'n wynebu awdurdodau lleol.

**33. Penderfynwyd:**

**33.1 Bod CLILC yn ysgrifennu at y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd, gan groesawu ei benodiad ond rhoi gwybod hefyd am y pwysau ariannol anferth a wynebir ar hyn o bryd.**

# Minutes

## WLGA Executive Board

**16th December 2022**
**Via Zoom**

### PRESENT:

WLGA Presiding Officer, Cllr Huw David OBE (Bridgend)
Cllr Andrew Morgan OBE (Rhondda Cynon Taf)
Cllr Bryan Davies (Ceredigion)
Cllr Charlie McCoubrey (Conwy)
Cllr Darren Price (Carmarthenshire)
Cllr David Simpson (Pembrokeshire)
Cllr Dyfrig Siencyn (Gwynedd)
Cllr Geraint Thomas (Merthyr Tydfil)
Cllr Huw Thomas (Cardiff)
Cllr Ian Roberts (Flintshire)
Cllr Jane Mudd (Newport)
Cllr Jason McLellan (Denbighshire)
Cllr Lis Burnett (Vale of Glamorgan)
Cllr Llinos Medi (Ynys Mon)
Cllr Mark Pritchard (Wrexham)
Cllr Mary Anne Brocklesby (Monmouthshire)
Cllr Rob Stewart (Swansea)
Cllr Stephen Thomas (Blaenau Gwent)
Cllr Steve Hunt (Neath Port Talbot)

Cllr Steve Bradwick (representing Fire Services)

### Substitution

Cllr Matthew Dorrance (Powys) (substitute for Cllr James Gibson-Watt)

**ALSO PRESENT:** Chris Llewelyn, Daniel Hurford, Dilwyn Jones, Jenny Lloyd, Jon Rae, Leah Whitty, Lee Pitt, Nathan Gardner, Nerys Hurford (interpreter), Tim Peppin

## Item 1: Welcome and Apologies

1. Apologies were noted from Cllr Anthony Hunt (Torfaen), Cllr James Gibson-Watt (Powys) and Cllr Sean Morgan (Caerphilly)

## Item 2: Minutes of Executive Board 28th October 2022

2. These were approved as a true and accurate record.

## Item 3: WLGA Leader's Update

3. Cllr Morgan noted he attended a meeting about the offer to Ukrainian refugees. The amount is to be reduced from 10k to circa 5k from January and there is also no money for any Ukrainians after they have been here for one year. The Leader suggested writing from the WLGA alongside COSLA as the need for support in schools will last way past 12 months.

4. **Resolved that:**

   **4.1 A joint letter with CoSLA be written to the UK government**

.

## Item 4: Local Government Settlement 2023-24 (Oral update)

5. Cllr Andrew Morgan introduced this item in the absence of Cllr Hunt, commenting the outcome was about as good as could realistically have been hoped for. Cllr Morgan noted details are needed on the revenue grants as soon as possible and informed the meeting that Ministers are very keen to avoid any double digit increases in Council Tax, but are also not expecting Council Tax to be frozen. Cllr Morgan added that year 2 in particular is going to be exceptionally difficult.

6. Cllr Morgan stated the lobbying around education and social services seems to have made a difference, adding that those conversations are needed and the way we inform Ministers directly rather than officials is something he feels we need to continue. Cllr Llinos Medi agreed it was a better settlement than hoped for, but wanted to make it clear that 2023-24 is likely to be easier than 2024-25 and it may be easier to make difficult decisions this coming financial year to make things easier for the following one.

7. There was widespread thanks for the roles played by Cllrs Hunt and Morgan in their effective lobbying of Ministers, but concern was expressed by a number of Leaders regarding the fairness or otherwise of the funding formula. Views were expressed that the formula could be reformed to give greater prominence to poverty, with the acceptance that as with any formula changes, there will be some who miss out a lot alongside those who gain.

8. Cllr Morgan expressed support for the proposal that the formula could be considered by the WLGA's Finance Sub Group (without Ministers), noting that it may be appropriate to consider some of the drivers rather than a full review, with agreement that any changes would need to be phased in over a few years. Cllr Morgan urged caution as it might be necessary to commission someone to scope any review and set out implications including whether a review is required, and if it should be a partial review or a full review?

9. Jon Rae commented that Treasurers have already started looking at the medium term and are interested in working with Wales Fiscal Analysis on 2025-26 onwards. Adding to Cllr Morgan's comments, he noted that should a fundamental review of the formula be undertaken, it would require a process of four or five years. He noted the Minister did commit to updating the census data which should also assist with the deprivation data.

10. **Resolved that:**

**10.1. The WLGA's Finance Group consider a review of the formula, including the drivers within the formula**.

## Item 5: Welsh Government Consultation on Business Rates

11. Cllr Rob Stewart introduced the paper and summarised the key points. There was a consensus of agreement to the recommendations, though Cllr Medi stated a concern about the capacity of the Valuations Office Agency and LAs to handle the additional workload, wondering if this could be added into the response. Cllr Stewart confirmed that if it cannot go in the letter, the concern will certainly be raised elsewhere.

12. **Resolved that:**

**12.1 All agreed with the recommendations within the report.**

## Item 6: Welsh Government Consultation on a Tourism Levy

13. The paper was introduced by Cllr Rob Stewart and a wide variety of views were expressed.

14. Cllr Siencyn stated that there is a cost to tourism in maintaining infrastructure and a tourism levy could be positive for the industry to improve the resources for guests. Cllr Pritchard, however, stated that he does not agree with a tourist tax in principle as he feels it would prevent a lot of people from coming to Wales.

15. Agreement was reached, however, that even if the principle were supported by the majority, a tourism levy was a power and no local authority would have to introduce it if they did not wish to. Cllr Stewart noted he would rather have the opportunity to consult and introduce it at a later date if needed following discussion with professionals, adding that if introduced, then we have the ability to introduce it at a later date if individual authorities choose to do so.

16. Cllr Morgan commented he respects the view there are 22 democratically elected people here, and we should reflect the fact that there is a majority view, whilst also giving voice to the minority.

17. **Resolved that:**

**17.1 This be supported, but the difference in views should be fully reflected in the response**

## Item 7: WLGA Transition & Recovery Support Programme

18. Cllr Morgan introduced the paper as spokesperson on climate change. Cllr Pritchard supported the aims of the report but raised concerns over potential cost implications. Cllr Medi noted she was in support of what is in the paper, but has concerns about the procurement implications in rural areas, especially for small and micro-businesses who may not bid for work and/or may struggle to meet requirements. Therefore, more thought may need to be given to where the thresholds are set. Cllr Medi reiterated there is no disagreement with the ideas, merely the practicalities.

19. Tim Peppin commented there will be a need to work with and support local suppliers so they are able to meet the specifications going forward, thereby reducing the likelihood of work going to suppliers from outside the area.

**20. Resolved that:**

**20.1 The possibility of Business Wales support for local suppliers to be raised with Welsh Government**

**20.2 The recommendations of the report are agreed.**

## Item 8: Electoral Administration and Reform White Paper

21. Daniel Hurford noted this is a detailed, technical report which closes on the 10th January so time for reflection is limited with Christmas and new year.

22. Cllr Morgan stated if a Councillor is elected to an MS or an MP, his local group feels quite strongly they should step down. At present there is a restriction on MSs that they have to step down in 12 months, but their view is if you were elected, you should step down from your Councillor position as soon as elected.

23. Cllr Mudd emphasised her support in relation to parachute payments, commenting that people who lose their seats after committed service should have financial protection..

**24. Resolved that:**

**24.1 The report recommendations were agreed.**

## Item 9: Local Government Services Pay Update CONFIDENTIAL

25. Chris Llewelyn introduced the paper in Cllr Hunt’s absence and no comments or issues were raised

## Item 10: Joint Council for Wales Update

26. Chris Llewelyn introduced the paper in Cllr Hunt's absence, noting that Cllr Hunt had agreed to raise awareness of the issues among leaders. Chris confirmed that Annex 1 was a paper submitted by the GMB about their concerns of 3rd party providers in delivering apprenticeships schemes.

27. No comments or issues were raised and the paper was duly noted.

## Item 11: WLGA Budget 2023-24

28. Chris Llewelyn introduced the paper in Cllr Anthony Hunt's absence, commenting the budget was discussed at the Management Sub Committee last week. He highlighted that one of the features is there is much greater involvement from members in the WLGA's day to day work, though it has always endeavoured to be a member-led association.

29. Jon Rae highlighted the fact the WLGA are actively looking at options for other organisations to utilise the space as we are under capacity. He also mentioned the translation contract with Conwy and the IT contract with Cardiff which needs to be looked at by the end of the year.

30. Cllr Stephen Hunt commented that as a new member he recognises the important work the WLGA does. However, it needs to be pointed out there is a rise in Community Safety and possible members allowance rises, so whilst supporting the recommendations, he queried how this would look in the public's view.

31. **Resolved that:**

    **31.1 The report was approved.**

## Item 12: Any Other Business

32. Cllr Medi highlighted a new Future Generations Commissioner has been appointed, stating we should write to welcome him and let him know the very real pressures local authorities are facing.

33. **Resolved that:**

    **33.1 The WLGA writes to the new Future Generations Commissioner, welcoming his appointment and emphasise the huge financial pressures councils currently face.**